Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

# Cwestiynau Cyffredin ynghylch polisi cyfranogiad mewn digwyddiadau

## 1. Sut mae mynychu digwyddiadau yn cyd-fynd ag annibyniaeth IOPC, gan gynnwys bod yn ddiduedd?

Mae IOPC yn ystyried yn ofalus, mewn perthynas â phob digwyddiad, a yw presenoldeb IOPC yn gyson â'i annibyniaeth. Ni fyddwn yn awdurdodi cyfranogiad staff mewn digwyddiad allanol lle, yn ein barn ni, byddai cyfranogiad o'r fath yn tanseilio annibyniaeth IOPC, neu'n peryglu gallu IOPC i gyflawni, a chael ein gweld yn cyflawni, ein dyletswyddau cyhoeddus heb unrhyw ragfarn. Nid yw ein presenoldeb mewn digwyddiadau yn gymeradwyaeth o'r digwyddiad na'r cymunedau dan sylw. Mae'n ffordd o sicrhau bod IOPC yn gallu lledaenu ymwybyddiaeth o'n gwaith, yn enwedig yn y cymunedau hynny lle gwyddom fod hyder isel mewn plismona a'r broses cwynion am yr heddlu. Yn amodol ar ystyriaethau cydraddoldeb, asesiad risg ac argaeledd adnoddau, bydd IOPC yn ymgysylltu ag amrywiaeth o grwpiau cymunedol yn unol â'n strategaeth sefydliadol bresennol.

## 2. Sut fydd IOPC yn blaenoriaethu ei adnoddau i ymgysylltu â gwahanol grwpiau?

Bydd dyraniad adnoddau IOPC, gan gynnwys amser staff, yn cael ei bennu gan amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- effaith presenoldeb ar gydraddoldeb
- yr hyn sy'n hysbys am lefelau hyder y gymuned benodol honno, mewn plismona a'r system cwynion am yr heddlu
- y costau cysylltiedig tebygol a sefyllfa gyllidebol y sefydliad
- goblygiadau adnoddau presenoldeb
- p'un a allai presenoldeb ein galluogi i ymateb i bryderon cymdeithasol ehangach ynghylch ymddiriedaeth a hyder mewn plismona a'r system cwynion am yr heddlu

Cyhoeddwyd ym Mis Awst 2026

© IOPC 2026

OGL This is licensed under the Open Government Licence v3.0
except where otherwise stated.

This does not include material belonging to third parties.
Authorisation to use such material must be obtained from the copyright holders concerned.

I gael gwybod mwy am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn
mewn fformat amgen, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)**
**10 South Colonnade Canary Wharf London E14 4PU**
Ffôn: **0300 020 0096**
E-bost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk**
Cyfnewid testun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg, ni fydd oedi mewn ymateb.